

CANLLAWIAU AR GYFER SYSTEMAU TCC

MEWN MANNAU CYHOEDDUS AC EIDDO

TRWYDDEDIG YN NYFED-POWYS



**COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER**



Cynnwys:	Tudalen:
Cyflwyniad	3
Gofyniad Gweithredol	3
Safon Systemau	5
TCC a'r Ddeddf Diogelu Data	9
Rhestr Wirio – Lleoliadau Camerâu	11
Rhestr Wirio Gosodiadau	12
Cysylltiadau Allweddol	13

Canllawiau ar gyfer Systemau TCC yn Nyfed-Powys.

Cyflwyniad:

Lluniwyd y canllawiau hyn ar gyfer darparu'r safonau gofynnol ar gyfer darpariaeth TCC mewn mannau cyhoeddus ac adeiladau trwyddedig, a mabwysiadu safon gyffredin ledled Dyfed-Powys. Fe'u lluniwyd gan Swyddogion Lleihau Troseddu Heddlu Dyfed-Powys, gyda chyfraniad gan Swyddogion Trwyddedu Awdurdodau Lleol.

Daeth y canllawiau i rym ar 1 Awst 2015 a byddant yn cael eu hadolygu gan bartneriaid yn flynyddol, gyda'r dyddiad adolygu cyntaf ym mis Gorffennaf 2016. Bydd yr adolygiad yn cael ei arwain gan Heddlu Dyfed-Powys.

Gofyniad Gweithredol:

Yn ei ffurf symlaf, mae Gofyniad Gweithredol (G.G.) yn holi cyfres o gwestiynau:

- Pam ydw i'n gosod system TCC?
- Beth ydw i eisiau iddi wneud?
- Ble ddylwn i osod camerâu?
- Sut ddylwn i recordio'r delweddau?

Mae Canolfan y Swyddfa Gartref ar gyfer Technoleg a Gwyddoniaeth Gymhwysol (CAST) yn cynghori y dylid defnyddio'r fethodoleg rhestr wirio Gofyniad Gweithredol. Dyma'r fethodoleg a ddefnyddir ledled Dyfed-Powys.

Pan mae client yn contractio gosodwr i lunio system TCC, bydd angen gwybodaeth benodol ar y gosodwr er mwyn creu manyleb ar gyfer system effeithiol. Mae'n annhebygol y bydd gan y client wybodaeth dechnolegol ddigonol er mwyn nodi pa offer sydd angen.

Mae'r defnydd o ymagwedd Gofyniad Gweithredol yn symleiddio'r broses ac yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer dryswch a all arwain at osodiad nad yw'n cydymffurfio.

Dylai'r Gofyniad Gweithredol ateb y cwestiynau canlynol:

Pwy a/neu ble sydd angen gwylio?

- Mannau cyhoeddus
- Cwsmeriaid a staff
- Lleoliadau o fewn yr adeilad (tu mewn/tu allan)
- Cerbydau
- Cerddwyr, ayyb.

Pa weithredoedd sy'n destun pryder?

- Digwyddiadau anhrefn
- Ymosodiadau

- Lladrad eiddo
- Difrod i eiddo
- Gwerthu cyffuriau
- Camddefnyddio cyffuriau
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Gweithredoedd amheus, ayyb.

Pam fod angen gwyllo'r gweithredoedd hyn?

- Monitro ymddygiad
- Adnabod troseddwr
- Cyflwyno tystiolaeth o ddigwyddiadau (a all gael ei defnyddio yn y Llys).

Ansawdd Llun:

Mae ansawdd y delweddau sy'n cael eu recordio'n hollbwysig. Gan hynny, dylent:

- Ddangos gweithredoedd yr unigolion sy'n gysylltiedig â digwyddiad yn glir
- Rhoi tystiolaeth o bwy yw'r troseddwr
- Dangos golwg gyffredinol o'r lleoliad
- Cael stamp dyddiad ac amser
- Mesurir ansawdd delweddau yn erbyn Safon Wynebau CAST.

Mae pedwar safon delweddau:

Categori	Uchder Person ar y Sgrin	Ansawdd Delweddau
Nodi	100%	Ansawdd delwedd a manylion digonol i adnabod unigolyn y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol. Rhaid pasio prawf 'Wynebau' CAST
Adnabod	50%	Gall gwylwyr ddweud â chryn dipyn o sicrwydd pa un ai a yw unigolyn a ddangosir yn rhywun y maent wedi'i weld o'r blaen. Yr un gosodiad safon recordio a ddefnyddir ar gyfer Nodi.
Arsylwi	25%	Gellir gweld rhai manylion nodweddion yr unigolyn, megis dillad arbennig. Rhaid bod modd gwahaniaethu rhwng unigolion.
Canfod	10%	Ansawdd a maint delwedd digonol i alluogi arsylwr i ganfod pa un ai a oes unigolyn yn bresennol.

Safon Systemau:

Y manylebau isod yw'r safon generig y mae'n rhaid ei bodloni. Ymgynghorir â Swyddogion Lleihau Troseddu Heddlu Dyfed-Powys cyn mabwysiadu system.

Camerâu:

Bydd nifer y camerâu a'u lleoliad yn benodol ar gyfer y safle. Rhaid iddynt fodloni'r safonau a nodir yn y weithdrefn Gofyniad Gweithredol yn unol â BS.EN.50132.7.

Dylid defnyddio camerâu lliw lle bo'n bosibl, fodd bynnag, mae du a gwyn yn dderbyniol mewn rhai amgylchiadau. Bydd y Swyddogion Lleihau Troseddu'n cytuno ar hyn mewn ymgynghoriad â Swyddogion Trwyddedu.

Eiddo Trwyddedig:

Ni fydd angen TCC ar bob bob eiddo trwyddedig TCC fel amod o'u trwydded. Mae'r cyfrifoldeb ar gyfer amodau trwydded yn gorwedd gyda phob awdurdod lleol. Bwriad y ddogfen hon yw darparu manyleb perfformiad ofynnol ar gyfer gosod system TCC lle mae'n amod ar gyfer caniatáu trwydded neu ar gyfer uwchraddio system bresennol. Y prif amcanion ar gyfer gosod system TCC o fewn amgylchedd o'r fath yw:

- Ceisio dylanwadu ar ymddygiad cwsmeriaid
- Diogelu staff ac eiddo
- Rhoi tystiolaeth o ddigwyddiad er mwyn cynorthwyo ag erlyniad (lle bo'n briodol).

Rhaid cyflogi cwmni â chymwysterau addas i lunio a gosod y system er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth – cwmni â thystysgrif SSAIB neu NSI Aur.

Rhaid rhoi manyleb system i Swyddog Lleihau Troseddu Heddlu Dyfed-Powys.

Mae camerâu TCC yn debygol o ddioddef ymyrraeth a fandaliaeth. Dylid gosod amgaead gwrth-ymyrraeth cadarn ar gamerâu er mwyn atal gweithredoedd o'r fath.

Bydd camerâu'n gwarchod ardal allanol pob mynedfa/allanfa hyd radiws o 4 metr o'r drws hwnnw ac yn medru darparu delweddau safon adnabod o 50% o ran uchder unigolyn ar y sgrin. Bydd y camerâu wedi'u profi i sicrhau eu bod nhw'n cyflawni graddfa G Rotakin.

Rhaid gosod camerâu lliw sy'n galluogi delweddau clir, dirwysr o bob unigolyn sy'n mynd i mewn i'r adeilad, neu sy'n gadael yr adeilad, ar bob drws sy'n caniatáu mynediad i'r cyhoedd. Bydd y camerâu hyn yn cael eu gosod y tu mewn i'r adeilad.

Rhaid bod y camerâu hyn yn medru cynnig delweddau safon adnabod CAST o 100% o ran uchder unigolyn ar y sgrin.

Bydd y camerâu hyn yn rhedeg ar 12 delwedd fesul eiliad o leiaf, a bydd ganddynt switsio lliw/mono - Deudau Allyrru Golau isgoch.

Bydd pob camera mewnol ac unrhyw gamera allanol ychwanegol, megis gerddi cwrw ayyb, yn cael ei fesur o'r gofyniad gweithredol ar sail benodol o ran safleoedd a bydd y safon arsylwi'n 25% o leiaf o ran uchder unigolyn ar y sgrin. Bydd y camerâu wedi'u profi i sicrhau eu bod nhw'n cyflawni graddfa K Rotakin.

Monitorau:

Rhaid darparu monitor lliw gyda'r system i wyllo delweddau byw neu rhai wedi'u recordio. Rhaid lleoli'r monitor lle nad oes modd i bersonél heb awdurdod ei weld.

Mae'n bosibl y cynghorir rhai adeiladau i osod monitor "cysur" yng nghyffiniau'r drws/drysau allanol sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd. Dylai'r monitor hwn ddangos delweddau a gynhyrchir gan y camera sy'n cwmpasu'r drws dan sylw. Ni ddylai ddangos delweddau a gynhyrchir gan gamera arall yn yr adeilad. Bydd cwsmeriaid sy'n mynd mewn i'r adeilad yn cael gwybod bod eu delweddau'n cael eu recordio gan system TCC, gan wella gwerth posibl y systemau o ran atal.

Systemau Mannau Cyhoeddus:

Mae systemau TCC mewn manau cyhoeddus yn eiddo i'r Awdurdod Lleol neu'r cyngor tref neu gymuned unigol ac yn cael eu cynnal ganddynt. Nhw sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar angen lleol mewn perthynas â nifer y camerâu maen nhw eisiau gweithredu. Mae'r canllawiau hyn yn ceisio darparu safon ofynnol i gynorthwyo cynghorau pe baent eisiau gosod camerâu newydd neu uwchraddio camerâu sy'n bodoli eisoes.

Safonau cyffredin ar gyfer TCC mewn Adeiladau Trwyddedig a Mannau Cyhoeddus:

Recordio Delweddau:

Un o'r prif resymau dros osod TCC yw cynhyrchu tystiolaeth (gellir defnyddio'r dystiolaeth hon yn y Llys) yn unol â BS.8495. Gan hynny, rhaid recordio'r delweddau hyn.

Rhaid i ddelweddau gael eu recordio ar blatfform recordio wedi'i osod mewn lleoliad diogel (wedi'i gloi mewn cabinet diogel neu ystafell ddiogel).

Rhaid i ddelweddau gael eu recordio ar 2 CIF o leiaf. Ym mis Ionawr 2016 neu wedi hynny, y gofyniad ar gyfer gosodiadau newydd yw 4 CIF/D1.

Bydd camerâu'n rhedeg ar 12 delwedd yr eiliad o leiaf.

Rhaid bod pob camera'n medru gweithredu'n llawn ar sensitifrwydd o 0.2 lwcs (lliw) o leiaf.

Eglurder gofynnol – 2 MP (700/800TVL) neu analog 720 x 576

Lens camera – awto iris amrywffocal

Systemau Recordio Digidol:

Rhaid bod gan y system gyfleuster amlblecsu dyblyg neu uwch, i ganiatáu ar gyfer recordio delweddau a'u hailchwarae yr un pryd. Rhaid bod dim ymyrraeth o ran recordio yn ystod y broses ailchwarae.

Rhaid bod y delweddau sydd wedi'u recordio'n medru cael eu trosglwyddo i gyfryngau megis disg CD-R, DVDR neu gof bach USB. Rhaid "terfynu" neu "gau" y CD-R yn yr ysgrifennwr CD cyn tynnu'r ddisg allan, neu mae'n bosibl na fydd modd gweld y ffeil delweddau.

Bydd pob delwedd sy'n cael ei hallforio'n cael ei fformatio fel bod modd ei chwarae ar gyfrifiaduron safonol Windows neu Apple neu ei chefnogi â chwaraewr cyfryngau ar y cyfrwng recordio allanol.

Bydd pob system yn cynnwys cyfleuster llwybr archwilio.

Rhaid bod unigolyn sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ar gael i ailchwarae ac allforio recordiadau ar y cyfrwng storio symudadwy. Rhaid bod cyflenwad disgiau CDR / DVDR digonol ar gael ar y safle.

Dylai'r system fedru recordio ac arddangos camerâu penodol hyd at 25 delwedd yr eiliad.

Ansawdd Delweddau:

Rhaid gosod ansawdd delweddau wedi'u recordio i'r gofyniad gweithredol yn hytrach nag er mwyn lleihau'r gallu storio. Rhaid bod y system yn medru cynhyrchu delweddau i'r safon CAST.

Rhaid mai H.264 neu MPEG4 yw'r safon gywasgu.

Rhaid peidio â chywasgu'r delweddau eglurder uchel yn drwm fel nad yw'r delweddau o safon isel wrth eu hailchwarae.

Cadw Delweddau:

Rhaid bod y system yn medru recordio a chadw delweddau am gyfnod o 31 diwrnod cyn recordio drostynt.

Stamp Amser a Dyddiad:

Rhaid i offer recordio digidol gofnodi gwybodaeth am ddyddiad ac amser fel rhan o'r ffeil delwedd. Rhaid bod y dyddiad/amser yn gywir.

Diogelwch Offer:

Dylid lleoli'r offer monitro a recordio mewn ystafell ddiogel. Lle nad yw hyn yn ymarferol, dylid cadw'r offer recordio mewn cabinet diogel er mwyn atal mynediad heb awdurdod, ymyrryd â'r delweddau neu eu symud.

Arwyddion:

Rhaid i bob system a osodir gynnwys arwyddion priodol.

Yn ôl Deddf Diogelu Data 1998, mae'n ofynnol gosod arwyddion yn yr ardal lle y defnyddir TCC.

Dylid gosod yr arwyddion yn agos i'r camerâu fel bod unrhyw un sydd gerllaw camera'n ymwybodol ei fod mewn ardal sy'n cael ei gwylio. Mae'r Comisiynydd Diogelu Data'n cynghori y dylid gosod arwyddion maint A5 o leiaf, gyda geiriau sy'n nodi'r unigolyn neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am y cynllun, diben y cynllun a phwy ddylid cysylltu â nhw mewn perthynas â chwynion ynghylch y cynllun.

Er enghraifft:



TCC a Deddf Diogelu Data 1998:

Rhaid i holl agweddau'r system TCC gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a rhaid cofrestru'r system â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar www.ico.gov.uk. Mae'r Goruchwylydd Diogelu Data wedi cynhyrchu canllawiau mewn perthynas â sut y dylid dehongli'r Ddeddf, gan gynnwys cyngor ynghylch yr arwyddion gofynnol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â - www.dataprotection.gov.uk

Comisiynu:

Rhaid profi'r system gyfan yn llawn, a'i chomisiynu ym mhresenoldeb cynrychiolydd y client. Diben y prawf hwn yw pennu pa un ai a yw'r camerâu'n cynnwys yr ardaloedd gofynnol, a pha un ai a ydynt yn medru darparu delweddau sydd o'r safonau gofynnol. Bydd angen tystysgrif dderbyniol wedi'i llofnodi er mwyn profi bod y gosodiad yn bodloni'r fanyleb a ddiffiniwyd.

Hyfforddiant/Rheoli Systemau:

Fel rhan o'r weithdrefn gomisiynu, rhaid i'r gosodwr ddysgu'r client sut i ddefnyddio'r system a'i chynnal.

Rhaid i'r client benodi rheolydd data a fydd yn gyfrifol am weinyddu, gweithredu, cynnal a goruchwyllo'r system.

Rhaid i bob defnyddiwr dderbyn hyfforddiant llawn o ran gweithredu'r system a chael gwybod am eu cyfrifoldebau cyfreithiol cyffredinol.

Rhaid darparu cod ymarfer a chanllaw gweithredu i gwmpasu gweithdrefnau trin tystiolaeth, hyfforddiant staff, adrodd am ddiffygion a rheoli cynnal. Dylai'r adran reoli nodi'r unigolyn sy'n gyfrifol am y system a gwirio dyddiol.

Cymorth Rheoli/Gwasanaethu:

Rhaid i'r system gael ei gwasanaethu'n rheolaidd gan weithredwyr cymwys i gynnal safon y delweddau sy'n cael eu recordio; rhaid i'r system fod yn "addas ar gyfer y diben". Dylid gwneud hyn bob 12 mis o leiaf, a dylid cadw cofnod o'r archwiliad, a fydd ar gael i'r Heddlu. Bydd cofnod yn cael ei gadw o bob nam. Bydd unrhyw nam yn cael ei "ddychwelyd i wasanaeth" o fewn 7 diwrnod.

Bydd angen cytundeb cynnal a chadw ar gyfer pob system a osodir.

Cyfrifoldebau Cyfreithiol:

Mae'n bwysig cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. Gall methu â gwneud hyn arwain at gamau gweithredu'n cael eu cymryd o dan y Ddeddf hon. Bydd methu â chydymffurfio â gofynion Diogelu Data hefyd yn effeithio ar allu'r heddlu i ddefnyddio'r delweddau TCC i ymchwilio i drosedd, a gall rhwystro euogfarnu troseddwyr.

Yn ogystal, rhaid cofrestru'r system â'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Gweler y manylion isod:

www.ico.org.uk

wales@ico.org.uk

Y Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Swydd Gaerlleon.
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545700

Ffacs: 01625 524510

Rhestr Wirio Lleoliadau Camerâu ar gyfer eiddo trwyddedig:

<p>TCC – Lleoliadau Camerâu Rhaid bod gan bob ardal drwyddedig deledu cylch cyfyng (TCC).</p> <p>Mae lleoliad y camerâu llawn mor bwysig â sicrhau bod y system TCC sydd wedi'i gosod o safon uchel. Gwelwch yr ardaloedd pwynt gwirio a restrir isod ar gyfer lleoliadau camerâu -</p>	
Mynedfeydd/allanfeydd ac ardaloedd cyntedd	
Palmentydd y tu allan i fynedfeydd adeiladau	
Coridorau i gyfleusterau toiled	
Ardaloedd penodedig ar gyfer chwilio am gyffuriau mewn adeiladau	
Peiriannau Gwerthu/Peiriannau Gêm	
Ardaloedd gêm, h.y. byrddau pŵl	
Ardaloedd bar	
Ardaloedd coridor	
Ardaloedd cyhoeddus mewnol	
Meysydd parcio	
Gerddi cwrw/ardaloedd patio	
Swyddfeydd diogelwch (coffrau)	
Ystafelloedd storio	
Mynedfeydd i drigfannau	
Ardaloedd dosbarthu	

Rhestr Wirio Gosodiadau:

Manylion Cwmni

	DO/YDY /OES	NA	SYLWADAU
Glynwyd wrth y Gofyniad Gweithredol?			
Cynhaliwyd a chyflawnwyd prawf Wynebau CAST ar bob mynedfa/allanfa cyhoeddus?			
Cyflawnwyd 50%R ar gamerâu allanol?			
Cyflawnwyd 100%R ar brif fynedfeydd/allanfeydd cyhoeddus?			
Cyflawnwyd sbec camera mewnol ac unrhyw gamerâu allanol ychwanegol yn unol â'r G.G.?			
Cyflawnwyd y gyfradd ffrâm yn unol â'r sbec G.G.?			
Cyflawnwyd yr amser cadw, h.y. 31 diwrnod?			
Glynwyd wrth y dull lawrlwytho (CDR/DVDR/Cofbin)?			
Rhoddwyd / derbyniwyd hyfforddiant?			
Gyriant caled systemau wedi'u lleoli'n ddiogel?			
Arwyddion wedi'u gosod ar y safle mewn lleoliad clir?			

Cysylltiadau Allweddol:

Sir Gaerfyrddin:

Swyddog Lleihau Troseddu: Rob Chapman. Ffôn: 101 Est 27460

Swyddog Trwyddedu Heddlu Dyfed-Powys: Mike Price. Ffôn: 101 Est
27463

Tîm Trwyddedu'r Cyngor: 01267 234567

Ceredigion:

Swyddog Lleihau Troseddu: Ian Whiteford. Ffôn: 101 Est 40617

Swyddog Trwyddedu Heddlu Dyfed-Powys: Mr John Evans. Ffôn: 101 Est
37463

Tîm Trwyddedu'r Cyngor: 01545 572179

Sir Benfro:

Swyddog Lleihau Troseddu: Ian Whiteford. Ffôn: 101 Est 40617

Swyddog Trwyddedu Heddlu Dyfed-Powys: Nigel Hayes. Ffôn: 101: Est
40463

Tîm Trwyddedu'r Cyngor: 01437 764551

Powys:

Swyddog Lleihau Troseddu: Rob Chapman. Ffôn: 101 Est 27460

Swyddog Trwyddedu Heddlu Dyfed-Powys: Nicola Davies. Ffôn: 101 Est
53329

Tîm Trwyddedu'r Cyngor: 01597 826000 (Ymholiadau Cyffredinol)